

Cofnodion

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Dydd Llun 16 Rhagfyr 2019

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Parc Busnes Rhyd-y-Car,
Merthyr Tudful

1) Croeso ac Ymddiheuriadau (*Cadeirydd*)

1a Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Kate Snow, United Utilities
Bob Vaughan, CNC
Michelle Van-Velzen, CNC
Geri Mills, CNC

1b Cyflwyniadau

Presenoldeb wedi'i gadarnhau:

Zoe Henderson, CNC (*Cadeirydd*)
Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Danielle Hitt, Dŵr Cymru
Steven Bradley, Dŵr Cymru
Nigel Elgar, Dŵr Cymru
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
John Mercer, NFU Cymru
Lorna Davis, NFU Cymru
Aled Jones, Undeb Amaethwyr Cymru
Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin
Jamie McCoy, AHDB
Sarah Hetherington, CNC
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Matt Lowe, CNC
Mark Alexander, Llywodraeth Cymru
Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru
Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru
James Ruggeri, HCC
Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Gwesteion:

Keith Owen, Kebec
Keri Davies
Richard Roderick

1c Datganiad o Fuddiant

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant mewn cysylltiad ag Eitemau'r Agenda.

2) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref a'r pwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw

Oherwydd prinder amser cytunwyd y dylid anfon unrhyw sylwadau yn deillio o'r cofnodion at Geri Mills. Bydd Marc Williams yn anfon y camau gweithredu blaenorol at yr aelodau.

Cam Gweithredu 1: Unrhyw sylwadau yn deillio o'r cofnodion blaenorol i'w hanfon at Geri Mills (Pawb)

Cam Gweithredu 2: Bydd Marc Williams yn dosbarthu unrhyw bwyntiau gweithredu eraill i aelodau'r Is-grŵp

3) Y Diweddaraf ar y Rheoliadau Amaethyddol

Cyflwynodd Mark Alexander, Llywodraeth Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynglŷn â'r datganiad a wnaethpwyd gan y Gweinidog yr wythnos diwethaf y bydd y rheoliadau arfaethedig yn cael eu gosod yn gynnar yn y flwyddyn newydd ar ôl ymgysylltu ymhellach â'r rhanddeiliaid. Mae'r Gweinidog yn awyddus i atal y lefel uchel o lygredd amaethyddol a sicrhau bod dŵr Cymru o'r safon uchaf.

Roedd y Gweinidog yn awyddus i drafod gyda'r grŵp a oes modd cael yr un canlyniadau â'r rheoliadau, neu ganlyniadau gwell, heb fod mor gyfarwyddol. Bydd y cysyniad o Ymreolaeth Haeddiannol yn ceisio sicrhau'r un canlyniadau amgylcheddol â'r mesurau rheoleiddiol ar eu pen eu hunain, neu ganlyniadau amgylcheddol gwell, gan fod y rheoliadau arfaethedig yn fwy cyfarwyddol. Bydd y Gweinidog yn penderfynu pa fesurau y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau a bydd yn ystyried yr elfen Ymreolaeth Haeddiannol er mwyn darparu trefniadau rheoli hyblyg.

Hoffai Llywodraeth Cymru wybod beth yw barn y grŵp ynglŷn ag Ymreolaeth Haeddiannol, ond eglurodd nad yw hwn yn ddull gweithredu gwirfoddol, ac y bydd Ymreolaeth Haeddiannol yn rhan o'r rheoliadau, er mwyn caniatáu elfennau o hyblygrwydd lle gellir cael yr un canlyniadau neu ganlyniadau gwell na mesurau cyfarwyddol y rheoliadau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ffermwyr unigol deilwra eu harferion er mwyn sicrhau'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell. Roedd y Cadeirydd wedi ymchwilio i Ymreolaeth Haeddiannol, a ddisgrifiwyd fel y norm a rhywbeth i'w golli os bydd yr ansawdd yn anfodhaol neu'r dulliau cyflawni'n methu. Bydd y sefydliadau sy'n perfformio orau yn gweld llai o reolaeth ganolog ac yn cael mwy o ryddid i weithredu. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai hyn yn debyg i'r hyn a gynigiwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hybu cydymffurfiaid ar draws y diwydiant, ac mae'n cydnabod bod mesurau eraill i gefnogi'r canlyniadau a geisir ar wahân i reoliadau yn unig - enghreifftiau o adroddiad ACDC, adroddiad Afon Axe a Mynyddoedd Catskill. Roedd pryder na allai ffermwyr tenant gydymffurfio â'r rheoliadau arfaethedig heb ddiwygio tenantiaethau, neu os bydd y cyfnodau pontio'n annigonol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ffermwyr tenant yn wynebu cyfyngiadau anodd, ond mae'n credu y gall pawb gydymffurfio â'r

rheoliadau, a bydd cymorth ar gael drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.

Defnyddiwyd cyfnod gwahardd gwasgaru fel enghraifft o sut y gellid gweithredu Ymreolaeth Haeddiannol. Amlinellir hyn yn y rheoliadau, ond drwy Ymreolaeth Haeddiannol mae cyfle posibl i rai ffermwyr wasgaru maethynnau yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bydd angen iddynt roi tystiolaeth o gyflwr y pridd, y tywydd, ac yn y blaen. Er mwyn i hyn allu digwydd mae angen darparu'r offer gwneud penderfyniadau cywir, cyngor a chymorth, a threfniadau cadw cofnodion i ffermwyr, i'w galluogi i ddangos bod yr hyn y maent yn ei wneud yn gynaliadwy ac yn briodol.

Codwyd mater eithrio rhai ffermwyr rhag gorfod cadw cofnodion, yn enwedig ffermwyr defaid, ond bydd angen asesu'r risg ar gyfer pob fferm unigol cyn penderfynu ynglŷn ag eithriadau. Bydd perfformiad a chydymffurfiad yn cael ei wirio drwy gynlluniau yn y dyfodol, a bydd hyn yn helpu ffermwyr i ddeall y gwerth ychwanegol y gallant ei gael, o safbwynt datblygu busnes a budd amgylcheddol, ynghyd â gorfodi drwy reoliadau. Nid erlyn ffermwyr yw bwriad Llywodraeth Cymru, ond sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr amgylchedd ledled Cymru, ac mae tystiolaeth i ddangos bod cynnyrch yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy.

Yn ystod y cyfnod pontio mae'n bosibl y bydd cyfle i fuddsoddi mewn amser neu gyfalaf ledled Cymru. Dywedwyd bod angen i ffermwyr sefydlu llinell sylfaen i nodi beth y gellir ei gyflawni dros gyfnod er mwyn gwneud newidiadau ar ffermydd, ag elfen o hyblygrwydd a chyllid posibl. Bydd rhoi'r cyfle hwn i'r diwydiant yn lleihau'r pwysau, ac ni fydd cymaint o ofn y rheoliadau pan gânt eu cyflwyno.

Eglurodd Creighton Harvey nad gwneud ffermwyr yn droseddwr yw'r bwriad wrth gyflwyno'r rheoliadau. Yn hytrach, y bwriad yw eu hannog i gydymffurfio a newid eu hymddygiad er mwyn lleihau llygredd yn y tarddle a llygredd gwasgaredig. Mae nifer yr erlyniadau mewn cysylltiad â llygredd yn y tarddle yn gymharol fach a bydd y rheoliadau'n sicrhau bod ffermwyr yn ymddwyn yn gyfrifol. Y syniad yw lleihau llygredd drwy ddarparu cymorth, addysg a chyllid.

Dywedodd Mark Alexander y bydd y Gweinidog yn ystyried yr holl wahanol opsiynau, y mesurau amrywiol a'r cyngor a roddir gan swyddogion. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n anodd i CNC reoleiddio Cymru gyfan heb ragor o adnoddau. Cyflwynir yr holl gyngor a'r opsiynau, gan gynnwys y farn ynglŷn ag Ymreolaeth Haeddiannol, i'r Gweinidog yn ddiweddarach ym mis Ionawr, ond nid oes dyddiad wedi'i bennu. Cynhelir cyfarfod i drafod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gydag Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 6 Ionawr 2020, felly gellir mynegi a thrafod y farn a'r sylwadau ynglŷn ag Ymreolaeth Haeddiannol hefyd.

Mynegodd Cyswllt Amgylchedd Cymru eu pryder mai hwy yw'r dioddefwr, a bod llygredd amaethyddol yn effeithio ar eu busnesau. Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant fod llawer wedi'i gyflawni yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, wrth weithio fel grŵp sy'n cynnwys llawer o randdeiliaid, er mwyn lleihau effaith llygredd amaethyddol. Dywedodd Lorna Davis fod gwella ansawdd dŵr yn gyfrifoldeb i bawb, ac nid i'r sector amaeth yn unig. Mae'r diwydiant ffermio yn awyddus i chwarae ei ran, ond yn aml iawn nid yw'r gwasanaethau ar gael i alluogi'r diwydiant i ddysgu mwy am wella ansawdd dŵr. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i bwysleisio bod y grŵp yn symud ymlaen i gefnogi ffermwyr, a bod cyfle i'r grŵp fewnbynnu'r holl wybodaeth a'r profiad a gafwyd yn y 2 flynedd ddiwethaf i geisio dylanwadu ar y diwydiant ffermio yn y dull mwyaf cadarnhaol.

Mae NFU Cymru yn gryf yn erbyn dull gweithredu seiliedig ar Gymru gyfan ar gyfer Parthau

Perygl Nitradau (NVZ). Byddai dull o'r fath yn cosbi ffermwyr nad ydynt wedi llygru dŵr, neu sydd â risg isel o lygredd. Dywedodd Jamie McCoy, AHDB, fod ffermwyr eisiau gwneud gwaith da, ac y gallai'r cynllun Ymreolaeth Haeddiannol fod yn gyfle da i'r diwydiant ffermio yn gynaliadwy, ond bod rhaid bod yn ofalus a sicrhau nad yw hyn yn golygu mwy o reoliadau i'r rhai sydd eisoes yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol, ac nad yw busnesau sydd ag elfen o risg i'w gweithrediadau yn cael eu gwobrwyo.

Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi papur briffio cyn y Nadolig yn amlinellu ei barn ynglŷn ag Ymreolaeth Haeddiannol a'r hyn y gofynnir i'r grŵp ei wneud. Bydd hefyd yn nodi'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau. Hoffai Llywodraeth Cymru i'r grŵp ystyried Ymreolaeth Haeddiannol, a byddai'n hoffi clywed unrhyw farn ynglŷn â'r opsiwn a lle Ymreolaeth Haeddiannol yn y rheoliadau i'w helpu i lunio'r cyngor i'r Gweinidog.

Pwynt Gweithredu 3: Llywodraeth Cymru i baratoi papur briffio byr ar Ymreolaeth Haeddiannol a Marc Williams i'w ddosbarthu i aelodau'r Is-grŵp. [Cyflawnwyd](#)

4) Y Diweddaraf ar y Dull Gwirfoddol o Reoli Maethynnau

Rhoddodd Lorna Davis gyflwyniad a diweddariad ar y dull gwirfoddol o reoli maethynnau, prosiect sy'n cael ei arwain gan ffermwyr. Gan fod y prosiect yn tynnu at ei derfyn mae Lorna yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn ysgrifennu'r adroddiad terfynol. Nod y prosiect oedd cynllunio glasbrint ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru i ddangos gwelliannau i ansawdd dŵr drwy alluogi ffermwyr i ddefnyddio maethynnau sy'n asedau ar eu ffermydd yn llawer mwy cywir ac effeithlon.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Lorna wedi ymgysylltu â thros 1,000 o ffermwyr ledled Cymru ac mae wedi ymweld ag ardaloedd eraill ledled y DU i nodi enghreifftiau o sut y mae ffermwyr wedi datblygu a gweithredu cynlluniau i wella ansawdd dŵr fel rhan o'u busnesau fferm. Cafwyd ymatebion cadarnhaol yn dilyn yr ymweliadau ac roedd y ffermwyr yn awyddus i reoli'r risg a dechrau deall sut i adnabod y risg a'r costau cysylltiedig.

Manteision dull sy'n cael ei arwain gan ffermwyr yw bod modd datblygu cyngor a chyfarwyddyd er mwyn darparu cyfeiriad clir, gweithio mewn partneriaeth, ceisio sicrhau 'cefnogaeth' ffermwyr a chydlynu â'r agenda bolisi ehangach. Mae Lorna wedi ymweld â nifer o sioeau sirol ledled Cymru ac wedi defnyddio'r model ymgysylltu i drafod â ffermwyr. Mae hefyd wedi cynnal nifer o seminarau ar ansawdd dŵr ynghyd â mynychu cyfarfodydd sirol NFU Cymru.

Fel rhan o'r prosiect datblygwyd y Safon Dŵr, sef prif ran y ddogfen, sydd yn ei ffurf ddrafft ar hyn o bryd. Bydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Safon Dŵr yn cynnwys nifer o gamau y mae'n rhaid i ffermwyr eu cymryd er mwyn nodi faint o risg y maent yn ei achosi i ansawdd dŵr. Mae'r camau nesaf yn cynnwys addysg i bawb sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, arloesi, marchnadoedd ar gyfer gweithredu, nodau'r diwydiant er mwyn cyflawni'r her sero-net, a gwerthoedd ffermwyr. Adolygir y ddogfen ddrafft gan bartneriaid a'r Grŵp Technegol Dŵr cyn ei rhannu.

5) Prosiect Gwella Ansawdd Dŵr Gorllewin Cymru 2019

Rhoddodd Stephen Marsh-Smith gyflwyniad sydyn i'r chwe Ymddiriedolaeth Afonydd yng Nghymru a sut y maent yn rhannu eu gwaith rhwng gweithgareddau mewn afonydd, megis grisiau pysgod ac adfer cynefinoedd, a materion ehangach yn ymwneud â defnydd tir ar afonydd. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid gan yr UE, ond mae ffrydiau cyllid eraill yn dod gan Lywodraeth Cymru, CNC, genweirwyr ac Ymgymeriadau Gorfodi sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd. Mae 17 o gynghorwyr ffermwyr yn Ymddiriedolaethau Cymru.

Cafodd prosiect Gwella Ansawdd Dŵr Gorllewin Cymru (ACDC) ei ariannu gan Dŵr Cymru er mwyn helpu i nodi materion ar ffermydd sy'n ymwneud â chael gwared ar ffosffadau mewn afonydd sy'n effeithio ar y diwydiant dŵr. Dewiswyd dau ddalgylch – Cleddau Wen yn Sir Benfro ac Afon Ceri, un o is-afonydd afon Teifi yng Ngheredigion. Cyflogwyd dau gynghorydd i ymgymryd â'r prosiect am 2 flynedd, gan alw heibio ffermydd yn ddirybudd, eu hasesu a llunio adroddiad i'r ffermwr. Roedd grant i'w ddefnyddio ar gyfer gwelliannau seilwaith ar y ffermydd. Yn ogystal, defnyddiwyd Scimap, sy'n asesu dŵr ffo sy'n llifo dros dir ac yn dangos ardaloedd risg ac ardaloedd diogel.

Roedd pob fferm a oedd yn ymuno â'r prosiect yn cael samplo pridd am ddim, ac yn derbyn cyllid seilwaith a chopi o'r Scimap yn nodi'r risgiau dŵr ffo ar eu daliad. Cafwyd ymateb da gan y ffermwyr yn dilyn yr ymweliadau dirybudd. Roedd dros 40% o'r ffermydd wedi cael ymweliad yn y ddau ddalgylch, tua 30% wedi gwrthod, a 25% o ymweliadau wedi'u gohirio. Gwnaethpwyd cyfanswm o 217 o argymhellion unigol i ffermydd, a oedd yn ymwneud â chapasiti storio slyri, gwahanu dŵr glân a dŵr budr, rheoli tail/dom, storio silwair, a gadael i dda byw fynd i afonydd.

Ar ddiwedd y prosiect nodwyd gwerth £130,000 o welliannau, sy'n gyfartaledd o £2,000 y fferm, yn amrywio o £11,000 i £200. Y grant a gynigid oedd 50% o gyfanswm y gost, â ffermwyr yn talu'r 50% arall. Ni dderbyniwyd pob grant a gynigiwyd i wella seilwaith gwael. O'r 61 o ffermydd y cynigiwyd grant iddynt, 20 o ffermwyr a dderbyniodd y cynnig. Roedd cyfyngiadau ariannol yn y busnes yn bryder hefyd gan fod angen dod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer y grantiau.

Roedd problemau yn ymwneud â'r cyfrifiad ffosffad (P) a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn er mwyn pennu cyfanswm y P a dynnid o gyrсияu dŵr o ganlyniad i'r gwelliannau strwythur. Y ffigur llwytho P a ddefnyddir yw 0.1kg/m^3 o ddŵr budr â 0.5% o ddeunydd sych, ac mae pryder y bydd dŵr glaw ddim ond yn ddŵr budr os yw wedi disgyn ar fuarthau penodol â defnydd penodol. Gallai rhai buarthau fod ychydig yn fudr ac yn cynhyrchu dŵr ychydig yn fudr, a gellid rhoi amcangyfrif rhy uchel ar gyfer y ffigur P. Mewn achosion eraill, gallai llwyth buarthau lle cynhyrchir slyri fod yn fwy os ydynt yn cyrraedd cwrs dŵr. Gall yr adroddiad a nodwyd o'r ymweliadau fferm yn y ddau ddalgylch gael gwared ar 4.6 tonnell o P yn flynyddol.

Mae'r adroddiad terfynol wedi cael ei baratoi gan Afonydd Cymru, a'i ddosbarthu i aelodau'r Is-grŵp, ac mae'n dangos canfyddiadau'r prosiect.

6) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- Dydd Llun 20 Ionawr 2020, i'w gadarnhau
- Dydd Llun 17 Chwefror 2020, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth

7) Y diweddaraf am weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Reoleiddio, Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 6 Ionawr 2020

Pwynt Gweithredu 4: Dosbarthu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r agenda erbyn dydd Gwener 20 Rhagfyr 2019 cyn cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Llywodraeth Cymru) Cyflawnwyd

8) Unrhyw fater arall

Pwynt Gweithredu 5: Ychwanegu eitem ar yr agenda i drafod y strategaeth ymadael ar gyfer grŵp Agrisgôp mewn cyfarfod o Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol (Marc Williams, CNC)

Pwynt Gweithredu 6: Byddai Stephen Marsh-Smith yn hoffi gweld eglurhad o asesiad presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r newidiadau sydd wedi'u gwneud erbyn y cyfarfod nesaf (Nik Salter, CNC)

9) Trafodaeth ar Fynyddoedd Catskill

Yn ei gyflwyniad cyfeiriodd Nigel Elgar, Dŵr Cymru, at grŵp Megaddalgylch Bannau Brycheiniog a'r daith i Fynyddoedd Catskill. Nod y daith astudio oedd gweld sut roedd sefydliadau yn ardal y Catskills yn ymgysylltu â ffermwyr, a sut y mae hynny wedi parhau ers 25 mlynedd. Roedd y daith (Hydref 2019) yn ymweld â dalgylch Croton a Mynyddoedd Catskill, ac roedd cyfle i ymuno â'r daith amaethyddol flynyddol, sy'n cynnwys gweinidogion a rheoleiddwyr lleol.

Mae'r dŵr wyneb yn cael ei gludo drwy ddisgyrchiant o'r gwahanfeydd dŵr i 9.5 miliwn o ddefnyddwyr yn ninas Efrog Newydd, ac mae 90% o'r dŵr heb ei hidlo. Sefydlwyd y Watershed Agricultural Council (WAC) i weithio gyda pherchnogion ffermydd a choedwigoedd yn rhanbarth gwahanfa ddŵr dinas Efrog Newydd er mwyn diogelu ansawdd dŵr. Mae'n credu bod diogelu dŵr yn ei darddle yn ddull mwy costeffeithiol a mwy ystyriol o'r amgylchedd nag adeiladu a chynnal a chadw systemau hidlo costus.

Roedd Keri Davies a Richard Roderick, sy'n ffermio ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi ymweld â Mynyddoedd Catskill gyda Dŵr Cymru, a rhanasant eu gwybodaeth a'u profiad o'r ymweliad â'r Is-grŵp. Diolchodd y ddau i Dŵr Cymru a'r Is-grŵp am eu cymorth ariannol i ymweld â'r ardal er mwyn dod â gwersi a ddysgwyd yn ôl gyda hwy a'u cymhwyso i'r diwydiant ffermio yng Nghymru, yn fwyaf arbennig fel rhan o grŵp Megaddalgylch Bannau Brycheiniog.

Defnyddir cam pum haen fel sail i Gynllun y Fferm Gyfan sy'n cynnwys:

- 1) Arolwg cychwynnol sy'n casglu gwybodaeth sylfaenol gan ffermwyr
- 2) Rhestru Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a nodi materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr
- 3) Amlinellu Cynllun y Fferm Gyfan a rhoi manylion am strategaeth ansawdd dŵr a hyfywedd y fferm
- 4) Buddsoddiadau yng Nghynllun y Fferm Gyfan ag asesiadau technegol ac ariannol a blaenoriaethau gwaith i'w gweithredu
- 5) Gwerthuso Cynllun y Fferm Gyfan ac adolygu unrhyw faterion eraill.

Pan oedd y ffermwyr wedi cyrraedd haen 5, a'r holl seilwaith wedi'i gwblhau, roeddent yn cael system gredydau yn seiliedig ar wobrwyo'r arferion gorau. Bydd y cynlluniau rheoli maethynnau a fydd yn cael eu llunio gan swyddogion WAC yn cynnwys pwyso chwalwyr tail, ac edrych ar fapiau'r ffermydd ac awgrymu'r ansawdd a'r ardaloedd i chwalu'r tail ar ddaliadau fferm. Roedd y Cynllun Bwydo Manwl yn cynnwys dadansoddi byrnau silwair a phob porthiant ar y fferm er mwyn cynllunio'n fanwl-gywir faint o fwyd y bydd ar yr anifeiliaid ei angen yn ystod y gaeaf, heb roi mwy o fwyd nag sydd ei angen, a thrwy hynny leihau nifer y maethynnau sy'n cael eu cynhyrchu ac sy'n cael eu gwasgaru ar y tir.

Lluniwyd Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd, ac mae 75% o ardal y Wahanfa Ddŵr wedi cael ei choedwigo, â choetir naturiol wedi'i ailsefydlu. Roedd y tir hwn ar un adeg yn dir cynhyrchiol ar gyfer ffermydd laeth, cyn iddo gael ei adael. Canfu gwaith ymchwil fod lefelau uchel o ffosffad yn dal i gyrraedd cyrsiau dŵr, ac mae hyn yn dangos nad yw coetiroedd sydd yn y broses o sefydlu eu hunain yn cael gwared ar y ffosffad. Mae plannu coed ar hyd glannau afonydd wedi arwain at ddŵr oerach, sy'n gallu helpu i gadw afonydd yn lanach a gwella ansawdd y dŵr.

Cafodd Keri a Richard fynd ar daith o amgylch prif swyddfa WAC lle'r oedd y gwahanol adrannau i gyd wedi'u lleoli ar yr un safle. Byddai hyn yn cyfateb i gael Cyswllt Ffermio, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru, CNC a chynllunwyr i gyd yn yr un adeilad. Roedd yn ymddangos bod y dull hwn o weithredu yn helpu, ac mae pawb yn cydweithio, sy'n ffordd fwy effeithlon o sicrhau'r canlyniadau a geisid.

Nid oes llawer o reoliadau ar gyfer ffermwyr ym Mynyddoedd Catskill, ac roedd Cyfarwyddwyr WAC yn defnyddio dull gweithredu gwirfoddol er mwyn cyflawni'r nod o gael dŵr yfed glân. Mae llawer o bwyslais ar sut i gysylltu â ffermwyr a chyfathrebu, a sut i oresgyn y broblem iaith drwy gynghori yn hytrach na dweud. Cynhelir ymweliadau'n flynyddol a gwneir adolygiad manwl bob 3 blynedd. Roedd y system gredydau'n seiliedig ar yr arwynebedd, ar gyfradd o £10 yr acer, a'r gyfradd stocio ar y fferm drwy bwysu da byw, a oedd tua £11 am bob 1,000 o bwysi. Os bydd y ffermwr yn cadw at y cynllun rheoli maethynnau bydd y taliad yn cael ei wneud yn flynyddol. Roedd y taliad hwn yn nhermau credydau, sy'n cael eu bancio gyda WAC. Gellid defnyddio'r credyd yn erbyn unrhyw beth sy'n gwella ansawdd dŵr, e.e. chwalwr tail. Roedd y dull o fapio risg a ddefnyddid yn gywir iawn, a chyn belled bod y ffermwr yn cadw at yr argymhellion, mae hyn hefyd yn cyfrannu tuag at y system gredydau.

Gofynnodd Creighton Harvey a oedd unrhyw reoliadau yn ymwneud â dwysedd stocio. Yr ateb oedd bod pob fferm wedi'i chyfyngu i 299 o wartheg. Pe bai nifer y gwartheg yn uwch na'r hicy'n hwn defnyddid system reoleiddio wahanol. Gofynnodd Creighton Harvey sut y byddai'r cynllun a amlinellwyd yn berthnasol i ddiwydiant laeth dwys de-orllewin Cymru, lle gallai fferm fod â 2,299 o wartheg.

Mae ffermwyr wedi cael cyllid 100% gan WAC ar gyfer seilwaith i wella ansawdd dŵr. Mae WAC yn gyfryngwr y mae pobl yn ymddiried ynddo, ac mae'r gwaith i gyd yn cael ei arwain yn lleol. Mae'n seiliedig ar wyddoniaeth, yn wirfoddol, ac nid oes unrhyw reoliadau. Mae pobl yr ardal yn awyddus iawn i hybu brand marchnata'r Catskills ac yn falch o'r cynnyrch. Hoffai Richard a Keri weld brand marchnata'n cael ei gymhwyso i ranbarthau yng Nghymru, gan dynnu sylw arbennig at waith grwpiau fel Megaddalgylch Bannau Brycheiniog.

Er mwyn i'r prosiect weithio ym Mynyddoedd Catskill roedd angen i fwy nag 85% o'r ffermwyr gymryd rhan ym 5 mlynedd gyntaf y cynllun gwirfoddol. Trwy ymuno byddent yn cael eu heithrio o reoliadau. Mae cael 'cefnogaeth' ffermwyr yn hollbwysig er mwyn i'r cynllun lwyddo.

10) Ymweliad â Safle Gwaith Trin Dŵr, Llwyn Onn

Gohiriwyd

Daeth y cyfarfod i ben.
